bwletin gweinyddiaeth etholiadol

Rhifyn 364 (Cymru) – 20 Mawrth 2024

Etholiadau mis Mai 2024: casglu adborth

Fel rhan o'n cyfrifoldebau statudol, bydd y Comisiwn yn adrodd ar etholiadau mis Mai 2024. Mae ein hadroddiadau'n dibynnu'n fawr ar yr adborth a'r wybodaeth a gawn gan y bobl sy'n cynnal ac yn cymryd rhan yn yr etholiadau. Rydym yn gwerthfawrogi'n fawr eich help wrth naill ai ymateb i'r arolygon hyn neu eu dosbarthu.

Arolwg staff gorsafoedd pleidleisio
Rydym yn cynnal arolwg o staff gorsafoedd pleidleisio i gasglu adborth am eu profiadau ar y diwrnod pleidleisio. Byddem yn gwerthfawrogi eich help i dynnu sylw staff eich gorsaf bleidleisio at yr arolwg.

Bydd dwy ffordd i staff gael mynediad i'r arolwg:

- Mae llawlyfr yr orsaf bleidleisio (copi caled a chopi digidol) yn cynnwys cod QR y gall staff ddefnyddio ffôn clyfar i'w sganio i gael mynediad i'r arolwg.
- Byddwn yn darparu dolen i'r arolwg ar-lein yn nes at y diwrnod pleidleisio y gallwch ei rhannu â staff eich gorsaf bleidleisio.

Yn y ddau achos, bydd y ddolen i'r arolwg yn mynd yn fyw ar brynhawn y diwrnod pleidleisio. Os oes gennych unrhyw ymholiadau am yr arolwg, cysylltwch â research@electoralcommission.org.uk.

Adborth gan weinyddwyr etholiadol
Hoffem hefyd gael adborth gan weinyddwyr a Swyddogion Canlyniadau sy'n gyfrifol am gynnal yr etholiadau. Mae hyn nid yn unig yn llywio ein hadroddiadau ar ôl yr etholiad ond bydd hefyd yn ein helpu i wella sut rydym yn eich cefnogi i gynnal etholiadau yn dda yn y dyfodol. Eleni bydd yn arbennig o ddefnyddiol clywed am eich profiad o weithredu'r gofyniad ID pleidleisiwr, yn ogystal â gwybodaeth am y mesurau hygyrchedd sydd ar waith yn eich ardal.

Byddwn yn darparu dolen i'r arolwg yn nes at y diwrnod pleidleisio. Bydd yn mynd yn fyw ddydd Gwener 3 Mai a'r dyddiad cau ar gyfer

Y Comisiwn Etholiadol

Cynnwys

Etholiadau mis Mai 2024 – casglu adborth
Manylion am y ffyrdd y byddwn yn casglu adborth gan weinyddwyr a staff gorsafoedd pleidleisio

Swydd Wag yn y Comisiwn Etholiadol
Manylion swydd wag yn ein tîm Cymorth a Gwelliant

Rydym yn cyhoeddi Bwletinau Gweinyddu Etholiadol yn rheolaidd. Maent yn un o'n prif ffyrdd o gyfathrebu gyda Swyddogion Canlyniadau, Swyddogion Cofrestru Etholiadol a'u staff. Mae rhifynnau'r gorffennol o Fwletinau Cymru, Lloegr a'r Alban ar gael yma. Gallwch hefyd danysgrifio i'r Bwletinau Gweinyddu Etholiadol.

Rhowch wybod i ni am unrhyw newidiadau i aelodau staff yn eich tîm. Bydd hyn yn ein helpu i sicrhau bod ein rhestr bostio yn gyfredol.

Os caiff Swyddog Canlyniadau/Swyddog Cofrestru Etholiadol ei benodi yn eich awdurdod, cysylltwch â'r tîm yng Nghymru drwy e-bostio infowales@electoralcommission.org.uk

Rydym yn anfon y cylchlythyr yma atoch gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth bwysig am waith y Comisiwn Etholiadol sy'n berthnasol i chi. Mae'r cylchlythyr yn rhan o dasg gyhoeddus y Comisiwn Etholiadol sydd â'i sail yn Neddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000. Byddwn yn rheoli eich gwybodaeth bersonol a'ch manylion cyswllt yn unol â Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol a deddfwriaeth diogelu data y DU, fel sydd yn ein hysbysiad

cwblhau'r arolwg fydd dydd Gwener 7 Mehefin. Os oes gennych unrhyw ymholiadau am yr arolwg adborth cysylltwch â researchsurvey@electoralcommission.org.uk.

preifatrwydd (https://www.electoralcommission.org.uk/cy/hysbysiad-preifatrwydd)

Os nad ydych am dderbyn y cylchlythyr hwn mwyach, gallwch ddad-danysgrifio unrhyw bryd.

Swydd Wag yn y Comisiwn Etholiadol

Rydym yn recriwtio i'r swydd ganlynol yn ein tîm Cymorth a Gwelliant ar hyn o bryd:

- Uwch Gynghorydd - Gwelliant

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau am y swydd hon yw 2 Ebrill 2024. Os hoffech gael sgwrs anffurfiol am y rôl, cysylltwch ag Amy Symons, Rheolwr Gwelliant, drwy ffonio 020 7271 0516.

I gael rhagor o wybodaeth neu i wneud cais, ewch i dudalen recriwtio ein gwefan.

Y Comisiwn Etholiadol, Cymru
Tŷ'r Cwmnïau, Ffordd y Goron, Caerdydd, CF14 3UZ
Ffôn: 0333 103 1929

infowales@electoralcommission.org.uk

www.comisiwnetholiadol.org.uk
© Y Comisiwn Etholiadol 2023